

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful

## Dyddiad yr arolygiad: **Tachwedd 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Santes Tudful, sy'n cynnwys darpariaeth meithrin ar safle'r Gurnos, yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol. Mae ganddi naws gynhwysol a gofalgar. Mae'r pennaeth a'r dirprwy, gyda chefnogaeth ddeallus y corff llywodraethol, yn cynnig arweinyddiaeth glir ac argyhoeddedig ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion.

Mae ethos yr ysgol wedi seilio'n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef ysbrydoli, dysgu a dathlu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu, yn gofalu am eraill ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu hysgol a'r ardal leol.

Mae perthnasoedd arbennig yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran ymdrech, cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn cyflwyno gweithgareddau symbylus gan ystyried syniadau'r disgyblion yn fwriadus. Maent yn ennyn chwilfrydedd gyda'r disgyblion ieuengaf ac yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu gallu i ddatrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd o'u mannau cychwyn gyda'u medrau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu annibynnol Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n ddigon da.

Mae staff yn darparu cefnogaeth a phrofiadau gwerthfawr i hybu lles disgyblion, er enghraifft er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous a bwriadus yn yr awyr agored. Mae'r cyfleoedd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar agweddau a gallu disgyblion i ymroi'n llawn i'w dysgu.

Mae adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach yn flaenoriaeth amlwg. Er enghraifft, mae'r ysgol yn croesawu rhieni a gofalwyr i'r 'Caffis Darllen' sy'n rhannu gwybodaeth bwysig gyda nhw ac yn hybu a chefnogi eu gallu i helpu eu plant adref. Mae hon yn gryfder arwyddocaol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a'u teuluoedd.

# Argymhellion

**A1 Datblygu medrau ysgrifennu annibynnol Cymraeg disgyblion**

## Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â darparu profiadau hynod o effeithiol i ddisgyblion ddatblygu medrau yn yr awyr agored.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 433 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 326 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 56 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.